Eisteddfod Llanfihangel-ar-arth a'r Plwyf 2020

Cynhaliwyd Eisteddfod Llanfihangel-ar-arth a'r Plwyf yn Neuadd Yr Ysgol, Llanfihangel-ar-arth ddydd Sadwrn Chwefror 29ain 2020. Beirniad Cerdd oedd Ffion Haf, Dryslwyn a beirniad Llefaru oedd Dyfrig Davies, Llandeilo. Cawsom ddiwrnod cystadlu o'r safon uchaf trwy'r dydd a nos gyda'r beirniaid yn rhoi canmoliaeth uchel i'r cystadleuwyr ym mhob adran.

Llywyddion y Dydd oedd Mr & Mrs Mansel Griffiths, Anwylfan, Llanfihangel-ar-arth a hoffai'r Pwyllgor ddiolch yn fawr iddynt am eu cefnogaeth i'r Eisteddfod dros y blynyddoedd. Cawson nhw eu cyflwyno i'r gynulleidfa gan Mrs Dawn Rees a rhoddwyd plât a blodau iddynt oddi wrth Bwyllgor yr Eisteddfod. Enillydd Cwpan Coffa Freddy Brooker am ganu emyn oedran cynradd yn yr Adran Gyfyngedig oedd Gwennan Lloyd Owen, Llanllwni. Cyflwynodd Mrs Wendy Brooker y cwpan i Gwennan. Perfformiwr mwyaf addawol yr Adran Gyfyngedig oedd Rhys Gruffydd Davies, Llandyfrïog a chyflwynodd gwpan iddo er cof am y diweddar Mr & Mrs Hughes, gynt o Brownhill, Llanfihangel-ar-arth. Parti Disgyblion Bro Teifi enillodd Tarian Valerie Davies yn y gystadleuaeth Parti Canu cynradd lleol. Ioan Davies o Lanfihangel-ar-arth enillodd Cwpan Coffa Heledd Griffiths am y cais celf gorau gan rywun o oedran ysgol gynradd a chafodd y Cwpan ei gyflwyno iddo gan Mrs Bethan Evans-Phillips, beirniad yr Adran Celf a Llawysgrifen. Perfformiwr mwyaf addawol yr Adran Agored oedd Alwena Mair Owen, Llanllwni. Roedd y beirniad yn llawn canmoliaeth am ei pherfformiadau safonol yn yr adrannau llefaru, canu ac offerynnol yn ystod y sesiwn a chyflwynwyd Cwpan Western Power iddi gan Calfin Griffiths ar ddiwedd yr Eisteddfod. Enillodd Heledd Jones, Saron gwpan Maesybwlch am y drydedd flwyddyn yn olynol gyda pherfformiad meistrolgar yn yr Unawd Offerynnol Uwchradd a oedd yn gystadleuaeth o safon uchel iawn yn ôl y beirniad Cerdd Ffion Haf. Cafodd Sioned Howells, New Inn, Eisteddfod lwyddiannus iawn unwaith eto eleni gan ennill y wobr gyntaf mewn sawl cystadleuaeth ar y llwyfan. Cipiodd y cwpanau her yn yr adrannau canu a llefaru oed 19 – 25. Maria Evans gipiodd dau gwpan her am yr ail dro gan ennill y cystadlaethau Darllen o'r Ysgrythur a'r Her Llefaru. Cadeiriwyd Mrs Carys Briddon o Aberystwyth yn y Seremoni Cadeirio am ei Thelyneg mewn mydr ac odl ar y thema 'Gwawr'. Am y tro cyntaf eleni cafodd y bardd buddugol ac enillydd Tlws yr Ifanc eu gwobrwyo mewn seremoni ar y cyd. Ianto Jones, Cribyn, Llambed enillodd Tlws yr Ifanc a chanmolwyd ef yn uchel gan y beirniad Llenyddiaeth Hanna Hopwood-Griffiths am ei gerdd mewn cynghanedd a stori fer gampus. Cafwyd perfformiad hyfryd o gân y Cadeirio gan Deiniol Wyn Rees i gloi'r seremoni. Enillydd Tarian Gwenllan am y gwaith gorau gan ddisgybl mewn ysgol oedd Lefi Dafydd o Eglwyswrw, dyma'r ail dro'n olynol i Lefi ennill y wobr hon. Aeth Gwobr Goffa Gwilym Walters am y darn gorau o Ryddiaith i Siân Teifi o Gaernarfon am ei stori fer ar y pwnc 'Gadael'. Raymond Williams o Lanybydder enillodd y Cwpan Her am y paragraff gorau gan ddysgwr am yr ail dro. Canmolodd y beirniad ei gais ar y thema 'E-bost i ffrind'.

Unwaith eto bu'r eisteddfod yn llwyddiant mawr wrth brofi talent unigolion lleol yr ardal a thu hwnt. Diolch o galon hefyd i'r beirniaid am eu gwaith caled cyn ac ar ddiwrnod yr Eisteddfod. Diolch hefyd i'n cyfeilydd ffyddlon Lynne James, rydym yn ffodus iawn o'i chefnogaeth i'r Eisteddfod bob blwyddyn. Diolch yn fawr iawn i'r arweinyddion, y stiwardiaid a'r rhai a ddarparodd y lluniaeth, y cystadleuwyr, pob un a ddaeth i gefnogi ac yn olaf y rhai a gyfrannodd yn ariannol, gan gynnwys Cronfa Les Fferm Wynt Statkraft Alltwalis, Cyngor Sir Gaerfyrddin a Chyngor Cymunedau Llanfihangel-ar-arth a Llanllwni.

CANLYNIADAU

LLWYFAN - SESIWN CYFYNGEDIG

Unawd Blwyddyn 1 a 2:
1. Gruffydd Rhys Davies, Llandyfriog 2. Celyn Davies, Llandyfriog 3. Esyllt Llwyd Thomas, Waungilwern

Llefaru Blwyddyn 1 a 2:
1. Celyn Davies, Llandyfriog 2. Esyllt Llwyd Thomas, Waungilwern 3. Gruffydd Rhys Davies, Llandyfriog

Unawd Meithrin a Derbyn: 1. Gwenno Thomas, Prengwyn 2. Alis Powell, Maesycrugiau

Llefaru Meithrin a Derbyn: 1. Alis Powell, Maesycrugiau 2. Gwenno Thomas, Prengwyn

Unawd Blwyddyn 3 a 4:
1. Gwennan Lloyd Owen, Llanllwni 2. Mari Lois Jones, Llanllwni 3. Magw Thomas, Llandysul / Gwenllian Dafydd, Llandysul

Llefaru Blwyddyn 3 a 4:
1. Gwennan Lloyd Owen, Llanllwni 2. Magw Thomas, Llandysul 3. Mari Lois Jones, Llanllwni

Unawd Blwyddyn 5 a 6: Dim cystadleuwyr

Llefaru Blwyddyn 5 a 6: 1**.** Emrys ap Iestyn, Llandysul

Canu Emyn a Chwpan er cof am Freddy Brooker:
1. Gwennan Lloyd Owen, Llanllwni 2. Celyn Davies, Llandyfriog 3. Mari Lois Jones, Llanllwni

Parti Canu (Tarian Valeri Davies: **1.** Parti Bro Teifi

Enillydd Cwpan Her er cof am Mr a Mrs Hughes gynt o Brownhill: Gruffydd Rhys Davies, Llandyfriog

LLWYFAN SESIWN AGORED

CYNRADD

Unawd Blwyddyn 1 & 2:
1.Iwan Marc Thomas, Pontarddulais 2.Gwenno Jones, Pontyrhendy 3.Betsi Mai Owen, Rhydaman

Llefaru Blwyddyn 1 & 2:
1. Gwennan Jones, Llanarth 2. Betsi Mai Owen, Rhydaman 3. Iwan Marc Thomas, Pontarddulais

Unawd Meithrin a Derbyn:
1.Greta Ann Jones,Caerfyrddin 2.Efa Medi James,Castell Newydd Emlyn 3.Non Thomas,Talgarreg

Llefaru Meithrin a Derbyn:
1. Efa Medi James, Castell Newydd Emlyn 2. Greta Jones, Caerfyrddin 3. Non Thomas, Talgarreg

Unawd Blwyddyn 3 a 4:
1. Gwennan Lloyd Owen, Llanllwni 2. Mari Lois Jones, Llanllwni / Awel Grug Lewis, Rhydaman
3. Rhun Potter, Cribyn, Llambed

Llefaru Blwyddyn 3 a 4:
1.Gwennan Lloyd Owen, Llanllwni 2. Awel Grug Lewis, Rhydaman 3. Rhun Potter, Cribyn Llambed

Unawd Blwyddyn 5 a 6:
1. Elin Mai Morgan 2. Beca Curry, Capel Dewi, Caerfyrddin 3. Gwennan Jones, Caerfyrddin / Cari Seymour, Drefach, Llanelli

Llefaru Blwyddyn 5 a 6:
1.Beca Curry, Capel Dewi 2.Elin Morgan, Llambed 3.Gwennan Fflur Jones, Caerfyrddin

Deuawd Ysgol Gynradd: 1. Mari Lois a Hana Grug Jones, Llanllwni

Unawd Offerynnol – Ysgol Gynradd a Gwobr Valerie Davies (£20):
1. Beca Curry, Capel Dewi, Caerfyrddin 2. Fflur McConnell, Aberaeron 3. Fflur

Alaw Werin – Ysgol Gynradd:
1.Gwennan Lloyd Owen 2. Cari Seymour, Drefach, Llanelli 3. Greta Ann Jones, Caerfyrddin

Cerdd Dant – Ysgol Gynradd:
1. Elin Morgan, Cribyn 2. Gwennan Lloyd Owen, Llanllwni 3. Greta Ann Jones, Caerfyrddin

UWCHRADD

Unawd Blwyddyn 7 - 9: 1. Alwena Mair Owen, Llanllwni

Llefaru Blwyddyn 7 - 9: 1. Alwena Mair Owen, Llanllwni 2. Elen Morgan, Llanybydder

Llefaru Blwyddyn 10 – 13: Dim Cystadlu

Unawd Blwyddyn 10 – 13: Dim Cystadlu

Unawd Offerynnol Ysgol Uwchradd a Chwpan Teulu Maesybwlch:
1. Heledd Jones, Saron 2. Lefi Dafydd, Eglwyswrw 3. Alwena Mair Owen, Llanllwni

Alaw Werin – Agored:
1. Sioned Howells, New Inn 2. Alwena Mair Owen, Llanllwni 3. Gwennan Lloyd Owen, Llanllwni

Unawd Cerdd Dant – Agored:
1. Sioned Howells, New Inn 2. Alwena Mair Owen, Llanllwni 3. Gwennan Lloyd Owen, Llanllwni

Parti Canu / Côr – Agored Ian i 20 aelod: Dim Cystadlu

Deuawd – Agored: 1. Alwena Mair Owen a Gwennan Lloyd Owen, Llanllwni

Cystadleuaeth Cymdeithas Eisteddfodau Cymru – Llefaru neu Gyflwyno Darn Digri:
1. Peredur Llywelyn, Llandysul

Cystadleuaeth Gorawl Cymdeithas Eisteddfodau Cymru:
1. Côr Hafodwenog 2. Côr Tonic 3. Côr Harmoni

Llefaru 19 – 25: **1.** Sioned Howells, New Inn

Unawd 19 – 25: **1.** Sioned Howells, New Inn

Cân fodern neu gân allan o sioe gerdd: 1. Sioned Howells, New Inn 2. Alwena Mair Owen

Darllen o'r Ysgrythur – Agored: 1. Maria Evans, Peniel 2. Sioned Howells, New Inn
3. Alwena Mair Owen, Llanllwni 4. Celyn Richards, Caerfyrddin
Canu Emyn – Agored a Chwpan er cof am Noel James:
1. Alwena Mair Owen, Llanllwni 2. Sioned Howells, New Inn 3. Mari Lois Jones, Llanllwni

'Sgen ti dalent?' 1. Owain Davies 2. Calfin Griffiths / Alwena Mair Owen

Her Adrodd dros 25: **1.** Maria Evans, Peniel

Her Unawd dros 25: Dim Cystadlu

Enillydd Cwpan Western Power am y perfformiad mwyaf addawol yn yr Adran Agored:
Alwena Mair Owen, Llanllwni

CANLYNIADAU'R LLENYDDIAETH

Telyneg a'r Gadair: Carys Briddon, Aberystwyth

Cerdd Rydd: John Meurig Edwards, Aberhonddu

Cerdd Ddigri: Megan Richards, Aberaeron

Englyn: John Ffrancon Griffith, Abergele

Limrig: Graham Rees, Llandrindod

Erthygl addas i Bapur Bro: Gaenor Mai Jones, Pentre'r Eglwys, Cwm Rhondda

Stori Fer: Siân Teifi, Caernarfon

Dysgwyr: Raymond Williams

Brawddeg: Megan Richards, Aberaeron

Enillydd Cwpan er cof am Gwilym Walters am y darn gorau o Ryddiaith: Siân Teifi, Caernarfon

Llun a Brawddeg - Meithrin a Derbyn: **1.** Non Thomas, Talgarreg

Stori Blwyddyn 1 a 2: **1.** Elliw Grug Davies, Llanybydder

Stori Blwyddyn 3 a 4: **1.** Elen Scourfield, Clunderwen **2.** Gwenno Francis, Boncath

Stori Blwyddyn 5 a 6: **1.** Gwennan Scourfield, Clunderwen

Blwyddyn 7 – 9:
1. Lefi Dafydd, Eglwyswrw 2. Thomas Lloyd Evans, Bro Teifi 3. Jano Evans, Bro Teifi

Blwyddyn 10 -13: **1.** Mali Thomas, Bro Teifi **2.** Gwion Ifan, Bro Teifi **3.** Saran Jones, Bro Teifi
Tarian Gwenllan am y darn gorau o waith yn Adran y Plant: Lefi Dafydd, Eglwyswrw

Tlws yr Ifanc: Ianto Jones, Llambed

LLAWYSGRIFEN

Lan i flwyddyn 2: 1. Elsi Owen Bro Teifi 2. Celyn Davies, Bro Teifi 3. Paisley, Bro Teifi

Blwyddyn 3 & 4: 1.Elinor Williams, Caerfelin 2. Ela Jones, Caerfelin 3. Brooke Joy, Bro Teifi

Blwyddyn 5 & 6:
1. Jessica Thomas, Caerfelin 2. Manon Griffiths, Caerfelin 3. Lara Harrison, Caerfelin

Blwyddyn 7 – 9: 1. Ann Jenkins, Bro Teifi 2. Chloe Cole, Bro Teifi 3. Georgia Smith, Bro Teifi

CELF

Meithrin a Derbyn: 1.Harri Owen, Bro Teifi 2.Iestyn Convery, Bro Teifi 3.Caleb Griffiths, Bro Teifi

Blwyddyn 1 & 2: 1. Ioan Davies, Llanfihangel-ar-arth 2. Efan Gwynne / Harry Jones, Bro Teifi
3. Elliw Jones, Llanllwni / Molly Layland, Bro Teifi

Blwyddyn 3 & 4:
1. Elinor Siân Williams, Caerfelin 2. Einir George, Llanllwni 3. Jac Williams, Caerfelin

Blwyddyn 5 & 6:
1. Molly-May Morrissey, Caerfelin 2. Jessica Thomas, Caerfelin 3. Manon Griffiths, Caerfelin

Cwpan her er cof am Heledd Griffiths i'r gwaith gorau yn yr Adran Gelf:
Ioan Davies, Llanfihangel-ar-arth

Carden longyfarch Agored:
1. Michelle Davies, Llanfihangel-ar-arth 2. Erin Macdonald, Pencader 3.Michelle Davies